

# Codi'r clawr

## ar doiledau ysgol y genedl

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael oddi wrth:

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth
Llys Siarter
Phoenix Way
Llansamlet
Swansea
SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600
Ffacs: 01792 765601

Plas Penrhos
Oak Drive
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7YW

Ffôn: 01492 523333
Ffacs: 01492 523336

Ebost cyffredinol: post@complantcymru.org.uk
Website: www.complantcymru.org.uk

Cyhoeddwyd gan: Comisiynydd Plant Cymru, 2004

## Sylwadau cyflwyniadol gan Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd hon, bûm yn ymweld â llawer o ysgolion ledled Cymru ac yn siarad gyda, ac yn gwrando ar, lawer o blant a phobl ifanc. Yn ystod yr ymweliadau hyn, dywedodd y plant fod angen sylw ar nifer o faterion, er eu bod wedi hysbysu'r oedolion perthnasol. Un o'r materion hyn oedd cyflwr toiledau ysgolion. Lleisiwyd pwysigrwydd y cyfleusterau hyn yn gyson.

## Gwrando ar Blant a Phobl Ifanc

Ar ôl gwrando ar farnau plant a phobl ifanc, penderfynais y dylai fy Swyddfa edrych yn agosach ar y sefyllfa bresennol. Gwnaethom hyn drwy edrych ar ddeddfwriaeth, arweiniad perthnasol, ac astudiaethau ymchwil amrywiol. Hefyd, bûm mewn cysylltiad uniongyrchol ag unigolion a sefydliadau.

Er ei bod yn amlwg yn bwysig gwrando ar oedolion, teimlais ei bod yn bwysicach fyth i glywed gan blant a phobl ifanc yn uniongyrchol am eu profiadau. Gan gydnabod mai'r cwynion, yn hytrach na datganiadau o fodlonrwydd, a ddaw i'm sylw yn aml, penderfynais fod angen i ni gasglu tystiolaeth ehangach.

Casglodd fy nhîm wybodaeth feintiol ac ansoddol o blant a phobl ifanc ledled Cymru, a chawsant drafodaethau defnyddiol gyda staff, llywodraethwyr, llunwyr polisi ac ymgyrchwyr yn y maes. Cafwyd cyfraniad gan Atebnôl, sef grŵp e-bost plant a phobl ifanc a reolir gan fy nhîm.

Bu'n siomedig fod llawer o oedolion proffesiynol wedi mynegi'r farn mai mater o flaenoriaeth gymharol isel yw hwn. Byddaf yn dadlau â'r farn hon, ac yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn egluro bod y mater hwn yn hynod bwysig ac yn effeithio bob dydd ar les corfforol a seicolegol plant a phobl ifanc. Yn fwy na hynny, mae llawer o blant yn ystyried bod y diffyg blaenoriaeth a roir i'r adnoddau sylfaenol hyn yn arwydd o'r diffyg blaenoriaeth a roir iddynt yn y gymdeithas yn gyffredinol.

## Parch, Gwerth a Disgwyliadau

Yn aml, mae athrawon, llywodraethwyr ac oedolion eraill yn sôn am y diffyg parch y dengys rhai plant a phobl ifanc at eu hamgylchedd. Rwyf yn cwestiynu pa lefel o barch sy'n cael ei chyfleu at blant a phobl ifanc wrth ddisgwyl iddynt gynnal gweithrediadau preifat a phersonol yn yr amgylchedd dychrynllyd y soniodd llawer ohonynt amdano.

Bwriad yr adroddiad hwn yw casglu meddyliau, teimladau a phrofiadau llawer o blant a phobl ifanc sydd yn ysgolion Cymru heddiw. Mae'n bwriadu gosod y cyd-destun polisi presennol yn syml ac yn gryno. Hefyd, mae'n archwilio goblygiadau canfyddiadau ymchwil ac astudiaethau eraill. Mae'n bwriadu cyflwyno trosolwg gwybodus o'r sefyllfa bresennol a chynnig argymhellion ymarferol ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Un o'r canfyddiadau pwysicaf yw nad yw cyflwr toiledau'r genedl yn wael i gyd. Mae'r ffaith bod rhai'n ddigonol – neu'n ardderchog, hyd yn oed – yn profi nad oes gwir esgus am y toiledau ysgol cas y byddaf yn clywed amdanynt mor rheolaidd. Dim ond cymryd cyfrifoldeb, ei wneud yn flaenoriaeth a chynnwys plant a phobl ifanc sydd angen.

Peter Clarke
Comisiynydd Plant Cymru
2004

# Rhan 1
# Cyflwyno'r Cefndir: y cyd-destun presennol

## Toiledau Ysgol: Pwy sy'n gyfrifol?

Mae yna nifer o gyfreithiau sy'n berthnasol i gyfrifoldebau y rheiny sy'n rheoli'r holl agweddau ar adeiladau ysgol. Cafodd y cyfreithiau hyn eu creu i sicrhau iechyd a diogelwch y plant, y bobl ifanc ac eraill sy'n defnyddio'r adeiladau hynny, gan gynnwys defnyddio'r toiledau ysgol.

## Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'n hadeiladau ysgol yn amrywio o ran oedran, cynllun, maint, cyflwr a rheolaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod hyn. Yn ei weledigaeth am ddyfodol y system addysg yng Nghymru, a amlinellir yn *Y Wlad sy'n Dysgu*[1]*,* cyfeirir yn benodol at roi sylw i rai o'r materion uchod drwy weithredu i:

'…sefydlu rhaglen gwariant cyfalaf gadarn i drawsnewid yr amgylchiadau yn ein hysgolion'.

Amlinellir manylion y gwariant cyfalaf hwn yng Nghynllun Cymru Well i Gymru 2001[2] lle ymrwymir i:

'Gynyddu'r cyllid yn sylweddol i adeiladau ysgol (£100m y flwyddyn am y tair blynedd nesaf) i sicrhau cynnydd i darged 2010 o gael yr holl adeiladau mewn cyflwr da.'

Mae 'Adroddiad Interim y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Ysgol y Dyfodol[3]' hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynllun adeiladau ysgolion a'r angen am welliannau yn y broses hon i gyflawni 'amgylchedd ysgogol a bywiog ar gyfer addysgu a dysgu.'

Fodd bynnag, ni chyfeirir yn benodol na'n fanwl at doiledau a chyfleusterau glanweithdra yn unrhyw un o'r dogfennau hyn; canolbwyntir yn bennaf ar y dosbarthiadau a'r mynedfeydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi datgan ei chefnogaeth am ehangu'r cynllun yfed dŵr yn yr ysgol. Ei bwriad yw sicrhau y bydd holl ysgolion Cymru'n darparu dŵr yfed glân i'w disgyblion drwy gydol y diwrnod ysgol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod rôl ysgolion wrth hyrwyddo iechyd da, er enghraifft drwy fentrau Ysgol Iach.

## Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau)

Rheolaeth strategol yw rôl yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rheoli eu hunain gyda swyddogaethau penodol iawn yn gyfrifoldeb i'r AALl.

Gellir dod o hyd i'w dyletswyddau, yn rai cyfreithiol a moesol, sy'n berthnasol i reoli toiledau ysgol, mewn darnau amrywiol o ddeddfwriaeth:

- Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974[4] yn egluro dyletswyddau'r Awdurdod Lleol fel y cyflogwr, i sicrhau iechyd a diogelwch cyflogeion a'r rheiny nad ydynt yn gyflogedig h.y. disgyblion ac ymwelwyr.

- Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992[5] yn nodi dyletswyddau AALlau, fel rheolwyr strategol, i sicrhau bod ysgolion yn rheoli asesiadau risg yr adeiladau. Mae hefyd yn nodi eu dyletswydd i ystyried sut y rheolir mesurau iechyd a diogelwch **yn holl ardaloedd**

[1] Y Wlad sy'n Dysgu, CCC, 2001
[2] Cynllun Cymru Well, CCC 2001
[3] Adroddiad Interim Ysgol y Dyfodol, CCC 2002

[4] Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
[5] Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992

adeiladau ac amgylchedd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys y modd y mae ysgolion yn trefnu, yn rheoli ac yn adolygu eu trefniadau iechyd a diogelwch.

- Mae Rheoliadau Adeiladau (Ysgol) Addysg 1999[6] yn nodi nifer y toiledau a'r wrinalau y dylid eu darparu i nifer y disgyblion yn yr ysgol.

## Penaethiaid, Athrawon a Staff Ysgol

Mae gan benaethiaid, athrawon a staff arall mewn ysgolion ddyletswydd dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 i roi sylw i unrhyw faterion iechyd a diogelwch wrth iddynt godi neu pan fyddant yn ymwybodol ohonynt. Fel arfer, cyfrifoldeb y cyflogwr, h.y. yr AALl neu'r corff llywodraethol, yw sicrhau y gwneir hyn.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at doiledau na chyfleusterau glanweithdra.

## Corff Llywodraethol Ysgol

Mae rôl a chyfrifoldebau llywodraethwyr ysgol yn eang ac yn amrywiol ond gellir eu disgrifio fel arweinyddiaeth strategol.

O fewn y rôl arweinyddiaeth honno, mae yna ddeddfwriaeth benodol sy'n nodi dyletswyddau corff llywodraethol yr ysgol wrth ystyried mater toiledau ysgol.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957[7] yn rhoi dyletswydd i feddiannwr adeilad, h.y. ysgol a llywodraethwyr, i ofalu'n rhesymol y bydd unrhyw ymwelydd (gan gynnwys disgyblion) yn ddiogel tra yn yr adeiladau.

- Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 hefyd yn berthnasol i gyrff llywodraethol ysgolion. Mewn gwirionedd, gall AALlau gymryd achos cyfreithiol yn eu herbyn os byddant yn methu yn eu dyletswydd dan y Ddeddf hon; ond nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at doiledau.

## Estyn

Mae Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Ysgolion yn chwarae rôl bwysig wrth fonitro'r holl agweddau ar fywyd ysgol. Un o brif nodau'r Arolygiaeth yw cefnogi cyflawniad y safonau uchaf o addysgu a gofalu am y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu ysgol.

Yn y *Fframwaith Arolygu Ysgolion*[8], nodir cyfrifoldebau'r Arolygwyr yn glir. Yn y rhan a enwir Cod Ymddygiad i Arolygwyr, mae'n datgan bod gan Arolygwyr ddyletswydd i

'…weithredu er budd disgyblion yn yr ysgol' ac i '…asesu'r dystiolaeth a ddarperir.'

Rhan 5.4 – Iechyd a Diogelwch, dylai'r arolygiad edrych ar effeithiolrwydd

'...gweithdrefnau ysgolion ar gyfer hyrwyddo lles, iechyd a diogelwch eu ddisgyblion, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n bygwth iechyd a diogelwch.'

Mae Rhan 6 – Adeiladau (6.3) yn nodi dyletswydd yr arolygydd i gynnal arolygiad…

'…o'r holl adeiladau a chyfleusterau sydd ar gael, gan gynnwys cyflwr, golwg…' bob ardal o fewn yr ysgol.

Mae adroddiadau terfynol i'r ysgolion, ar ôl arolygiad, yn amlygu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a dylent gynnwys gwybodaeth am

[6] Rheoliadau Addysg (adeiladau ysgol) 1999
[7] Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957
[8] Fframwaith Arolygu Ysgolion, Estyn 2000

'... beidio â chydymffurfio â gofynion statudol lle y bo'r rhain … yn arbennig o arwyddocaol mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch.'

Ar hyn o bryd, byddai Estyn yn disgwyl i ysgol roi sylw i'r materion a amlygir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, nid yw'n orfodol i ysgolion gyflwyno na dangos unrhyw gynllun gweithredu iddynt; yn hytrach, byddai disgwyl iddynt gyfarfod â'r AALl i weithredu ar y materion hynny. Lle nodwyd ymateb mewn ysgol benodol, byddai Estyn yn ei archwilio ar ymweliad monitro ac os darganfyddir nad yw wedi cael sylw, byddai disgwyl i'r ysgol esbonio'r diffyg gweithredu.

Ond – eto – nid oes cyfeiriad penodol at doiledau.

## Yr Ysgogiad am Newid

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Yn ei dogfen *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau*[9], mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi amlinellu ei hymrwymiad i weithredu'r UNCRC:

'Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn fel sylfaen i'n holl waith dros blant a phobl ifanc yng Nghymru.'

Mae'r Erthyglau canlynol yn arbennig o berthnasol wrth ystyried yr holl faterion sy'n berthnasol i doiledau ysgolion

'Bydd pleidiau gwladol yn sicrhau bod y sefydliadau, y gwasanaethau a'r cyfleusterau sy'n gyfrifol am warchod neu ofalu am blant yn cydymffurfio â'r safonau a sefydlwyd gan awdurdodau cymwys, yn enwedig ym meysydd iechyd a diogelwch'.

**Erthygl 3**

'Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddynt aros yn iach'.

**Erthygl 24**

'Mae gan blant yr hawl i fynegi eu barnau'n rhydd ac i sicrhau bod eu barnau'n cael eu hystyried mewn **unrhyw fater** neu weithdrefn sy'n effeithio arnynt'.

**Erthygl 12**

### Ymchwil Toiledau Ysgol

Dros y blynyddoedd, cynhaliwyd nifer o astudiaethau ac ymchwil i gyflwr toiledau ysgol (gweler Atodiad 2).

Mae yna ganfyddiadau cyffredin, cyson mewn llawer ohonynt, hynny yw bod plant a phobl ifanc yn gorfod defnyddio cyfleusterau toiled eilradd yn ystod y diwrnod ysgol a bod hyn yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u datblygiad. Yn yr astudiaeth fwyaf diweddar gan Sue Vernon[10] yn Newcastle ym mis Ionawr 2003, canfuwyd problemau tebyg iawn.

### *Ymgyrch 'Bog Standard'*

Lansiwyd Ymgyrch *Bog Standard*[11] yn y DU ym mis Ebrill 2003,  gydag arolwg cenedlaethol gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei gynnal dros y misoedd dilynol. Mae hon yn fenter ar y cyd rhwng Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth Enwresis (ERIC), Cynghorau Ysgol y DU a Chymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd (CPHVA) ac, yn ddiweddar, Cymdeithas Toiledau Prydain.

---

[9] Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau, LlCC 2004

[10] Vernon S, Lundblad B, Hellstrom AL. Journal of Childcare, Health and Development 2003; rhifyn 29:tud. 35-45

[11] http://www.wateriscoolinschool.org.uk/toilet_campaign.html

Mae'r pedwar corff hwn wedi ymuno i ymgyrchu dros welliannau i gyfleusterau toiledau a dŵr yfed i ddisgyblion ysgol. Mae ganddynt bryderon gwirioneddol iawn am effaith ddifrifol cyflwr presennol toiledau ysgol ar iechyd plant a phobl ifanc.

## Amgylchiadau ar gyfer Dysgu Iach

'Please can I go to the toilet, when I need to, as it hurts my belly to keep it in until playtime!!!'
*(Alla i fynd i'r tŷ bach pan fo angen i mi, gan ei fod yn brifo fy mol i aros tan amser chwarae!!!)*
(Bachgen, 7, Langstone)

Mae'r ymchwil a gynhaliwyd dros sawl blwyddyn erbyn hyn (Atodiad 2) i weithredoedd ac arferion y bledren a'r coluddyn mewn babanod, plant ac oedolion yn dweud y canlynol wrthym:

- Mae'n hanfodol derbyn digon o hylif er mwyn cynnal yr iechyd gorau posibl, yn enwedig plant
- Mae derbyniad hylif isel wedi cael ei gysylltu ag amrywiaeth o broblemau iechyd mewn plant, yn enwedig clefydau ysgarthol fel rhwymedd neu gerrig yr arennau
- Mae angen i blant ddefnyddio toiledau yn rheolaidd yn ystod y dydd i annog ysgarthiad llwyr
- Mae Heintiad y Llwybr Wrinol (UTI) yn broblem gyffredin mewn plentyndod cynnar
- Mae osgoi mynd i'r tŷ bach i ymgarthu yn cynyddu tebygolrwydd rhwymedd
- Y ffordd orau i wagio'r bledren yw eistedd gan gefnogi'r cluniau a'r traed, a phlygu ymlaen ychydig. Os yw seddi tŷ bach yn annigonol neu'n frwnt mewn ysgolion, mae yna berygl gwirioneddol y bydd y plant sy'n eu defnyddio yn cyrcydu. Golyga hyn nad ydynt yn gwagio'u pledren neu goluddyn yn llwyr a'u bod yn cynyddu'r perygl o UTI
- Nid atblygiad corfforol yn unig yw mynd i'r tŷ bach. Mae angen i'r amgylchedd cyfan fod yn gysurus er mwyn ymlacio a chaniatáu i'r prosesau corfforol a seicolegol cywir ddigwydd
- Dengys ymchwil fod cynifer ag un o bob wyth merch yn dechrau ei misglwyf tra yn yr ysgol gynradd. Mae darpariaeth annigonol y cyfleusterau i ddosbarthu a gwaredu tyweli misglwyf yn tanseilio'u preifatrwydd yn ddifrifol a gallai effeithio'n negyddol ar eu hunanddelwedd a'u hunanbarch.

Nid oes unrhyw amheuaeth y bydd angen rhai plant i ddefnyddio'r tŷ bach a'u hamharodrwydd i wneud hynny yn effeithio o leiaf ar eu cysur corfforol tymor byr. Bydd hefyd yn ffactor yn eu gallu i ganolbwyntio a lefel eu hanniddigrwydd cyffredinol yn ystod y dydd.

## Trosglwyddo Clefydau

Mae ymchwil yn dangos y nodwyd toiledau ysgol fel ardaloedd lle gall unigolion ddal heintiau neu glefydau penodol. Gwneir hyn mewn nifer o ffyrdd – trwy seddi tŷ bach, dolennau tsiaen, tapiau dŵr, tapiau yfed neu ffynhonnau, sebon a dosbarthwyr eraill. Mae'r heintiau hyn yn cynnwys rhai difrifol iawn fel Hepatitis A a nifer o heintiau stumog-berfeddol. Lle y mae cyfleusterau ar gyfer golchi a sychu dwylo o safon wael, neu lle nad ydynt ar gael hyd yn oed, mae tebygolrwydd trosglwyddiad wedyn yn ymestyn drwy'r ysgol a thu hwnt.

## Cyfranogiad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi amlinellu ei hymrwymiad i hyrwyddo ymglymiad a chyfranogiad ystyrlon plant a phobl ifanc. Yn Gweithredu'r Hawliau, nodir:

'Rydym eisiau gwrando ar blant a phobl ifanc eu hunain… Rydym yn sefydlu

trefniadau i glywed lleisiau plant a phobl ifanc ar dair lefel – yn genedlaethol, yn lleol ac mewn ysgolion.'

Mae hyn yn cynnwys y cynigion ar gyfer sefydlu cynghorau ysgol disgyblion[12] ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae Fforymau Ieuenctid hefyd wedi'u sefydlu mewn llawer o ardaloedd Awdurdod Lleol.

Mae'r strwythurau hyn yn cael eu datblygu i sicrhau cyfranogiad plant wrth wneud penderfyniadau o fewn eu hysgolion ac yn eu hardaloedd. Yn ymarferol, golyga hyn y dylent gymryd rhan mewn materion sy'n ymddangos yn ddinod fel adnoddau tŷ bach, i strategaethau ar gyfer datblygiad economaidd.

[12] Plant a phobl ifanc: Gweithredu'r Hawliau, LICC, 2004

# Rhan 2
# Profiadau a barnau plant a phobl ifanc yng Nghymru

## Yr arolwg

Ym mis Mai 2002, lansiodd Comisiynydd Plant Cymru arolwg o brofiadau a barn plant a phobl ifanc. Llenwyd holiaduron yr arolwg gan 708 o blant a phobl ifanc (gweler Atodiad 1). Roedd 69% oginynt yn ddisgyblion ysgol gynradd, a 31% o ysgolion eilradd. Yn gyfan gwbl roedd 59% o ymatebwyr yn fenywaidd, a 41% yn wrywaidd.

Yn dilyn casglu gwybodaeth cychwynol yn ystod gwyliau a gweithgareddau, nodwyd bylchau mewn ardaloedd daearyddol ac yna anfonwyd holiaduron at ysgolion yr ardaloedd hynny. Bu plant a phobl ifanc o 22 ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru yn cymryd rhan. Llenwodd unigolion yr holiaduron mewn lleoliadau ar draws Cymru – clybiau ieuenctid, prosiectau plant a phobl ifanc, gwyliau ac mewn lleoliadau preswyl.

Roedd un rhan o'r holiadur yn caniatáu plant a phobl ifanc i roi eu sylwadau eu hunain, a llenwodd nifer sylweddol y rhan hon. Teimlwyd bod hyn yn atgyfnerthu cryfder teimlad llawer ynghylch yr agwedd hon ar fywyd ysgol.

Cynlluniwyd yr arolwg i roi cipolwg o gyflwr toiledau ysgol y wlad: i nodi cyfleusterau da yn ogystal â rhai gwael. Hefyd, caniataodd yr arolwg i ni gasglu gwybodaeth am safbwyntiau gwahanol ddisgyblion, gan nad oedd pob ymateb o'r un ysgol neu awdurdod lleol yn mynegi'r un farn.

## Yr Hyn a Ddywedodd Plant a Phobl Ifanc

**C1 – A ydych yn hapus gyda'r toiledau yn eich ysgol chi?**

'The toilets in my school are horrible. There is no toilet paper, no soap, and no hand towels. There are no toilet seats to sit on and the toilets are dirty'
(*Mae'r toiledau yn fy ysgol i yn ofnadwy. Does dim papur tŷ bach, dim sebon a dim tywelion llaw. Does dim seddi tŷ bach i eistedd arnyn nhw ac mae'r toiledau'n frwnt.*)

(Bachgen, 6, Casnewydd)

'Hoffwn i gael (transformation) yn y toiledau mae graffiti ar y waliau a dŵr ar y llawr a'r drychau yn frwnt'

(Merch, 12, Abertawe)

## Preifatrwydd

**C2 – A yw'r drysau i gyd yn cau ac yn cloi'n gywir?**

'The toilets are nasty. I wish the doors would lock everyone walks in without knocking. I would like you to put locks on the doors...'
(*Mae'r toiledau yn ofnadwy. Dydy'r drysau ddim yn cloi ac mae pawb yn cerdded i mewn heb gnocio. Hoffwn i chi roi cloeon ar y drysau...*)

(Merch, 7, Pontnewydd)

Dywedodd llawer o blant nad oedd cloeon ar ddrysau'r toiledau a bod y cloeon sydd yno'n aml yn annigonol. Mewn un ysgol, soniodd plant am y ffaith fod y cloeon ar y tu allan!

Yn ogystal â hyn, nododd llawer fod y bylchau ar ben uchaf neu ar waelod y ciwbiclau yn rhy isel neu'n rhy uchel, sy'n golygu bod plant eraill yn aml yn eu poenydio drwy edrych dros y drws neu daflu neu ollwng pethau arnynt tra'u bod i mewn yno.

'Put the toilet wall hiregher because everyone like the ones are nasty look over'
*(Rhowch waliau'r tŷ bach yn uwch achos mae'r plant cas i gyd yn edrych drosodd)*

(Merch, 9, Cwmbrân)

## Golwg a chynnal a chadw

**C4 – A ydych chi'n credu bod y toiledau'n lân?**

'Mae gormod o graffiti os oedd y toiledau yn edrych yn neis bydd neb eisiau ei sboilo'

(Merch, 12, Abertawe)

Soniodd llawer am graffiti. Sylwyd hefyd ar gyflwr gwael addurniad; soniwyd am baent yn dod oddi ar waliau a chyflwr y lloriau, a oedd yn aml yn llithrig, yn wlyb ac yn frwnt.

'The toilets are disgusting! You slip everywhere'
*(Mae'r toiledau'n ffiaidd! Rydych chi'n llithro i bob man)*

(Bachgen, 11, Caerdydd)

Cyfeiriwyd hefyd at drefniadau glanhau, neu eu diffyg yn hytrach, a'r ffaith na wneir hyn yn gywir yn benodol. Nododd llawer yr arogl ofnadwy a dweud mai dyma oedd un o'r rhesymau allweddol pam na fyddent yn eu defnyddio.

**C5 – A yw'r toiledau'n arogli'n ddymunol?**

'People don't flush loos and the cleaners don't clean them out, people also smoke in them' '
*(Dydy pobl ddim yn fflysio'r tŷ bach a dydy'r glanhawyr ddim yn eu glanhau, ac mae pobl yn ysmygu ynddyn nhw)*
(Merch, 13, Abertawe)

## Ysmygu

'Stop people from smoking in the toilets by putting smoke detectors in the toilets so that they notify someone about it'
*(Stopiwch bobl rhag ysmygu yn y toiledau drwy roi synhwyrwyr mwg yn y toiledau fel eu bod yn tynnu sylw rhywun ato)*
(Merch, 11, Llandegfan, Sir Fôn)

Roedd rhai pobl ifanc yn defnyddio'r toiledau i ysmygu ac roedd llawer o rai eraill eisiau i hyn ddod i ben. Rhoddwyd hyn fel rheswm pam nad oedd rhai plant yn fodlon defnyddio'r toiledau.

'Mae'r toiledau yn drewlyd dros pen, o fwg a sigarretts, phew!'
(Merch, 12, Sir Benfro)

## Fandaliaeth

Nododd llawer o blant y fandaliaeth barhaus o gloeon, tsieiniau a sinciau ac ati gan leiafrif o ddisgyblion eraill. Hefyd, daeth yn amlwg o'u sylwadau nad yw'r digwyddiadau hyn yn aml yn cael sylw am gyfnod hir.

### Ffitiadau

Amlygodd nifer fawr o blant amgylchiadau na fyddai llawer o oedolion yn eu goddef.

'The toilets are too small we can not wash are hands because the water is to hot we dont have no soup (soap).'
*(Mae'r toiledau'n rhy fach, mae'r dŵr yn rhy boeth i ni olchi dwylo, does dim sebon.)*
(Merch, 8, Cwmbrân)

- Nid oedd tsieiniau'n tynnu dŵr neu roeddent wedi torri.
- Roedd seddi tŷ bach wedi torri neu ar goll.
- Roedd sinciau wedi cracio neu dorri; nid oedd tapiau'n rhoi dŵr poeth, na dŵr oer mewn rhai achosion. Mewn un ysgol, nododd un disgybl ysgol fod y dŵr yn rhy boeth i'w ddefnyddio.
- Soniwyd hefyd am dapiau a oedd yn anodd i rai plant eu defnyddio.

## Cyfleusterau sebon a sychu dwylo

**C7 – A ydych chi'n gallu golchi'ch dwylo yn nhoiledau'r ysgol?**

Ni ddarparwyd sebon, neu edrychai neu aroglai'n ofnadwy. Ni chadwyd dosbarthwyr, os oedd rhai ar gael, yn llawn.

Lle'r oedd sychwyr, nid oeddent yn gweithio yn aml neu'n chwythu aer oer. Soniwyd hefyd am ddiffyg tywelion papur.

'Flushing and taps don't work. Very smelly and unclean'
*(Nid yw tsieiniau a thapiau'n gweithio. Drewllyd a brwnt iawn)*
(Bachgen, 14, Abertawe)

## Maint sy'n addas i blant

'High chains mean toilets are hard to flush'
*(Mae tsieiniau uchel yn golygu ei bod yn anodd fflysio'r toiledau)*
(Merch, 6, Casnewydd)

Roedd y tsieiniau neu'r mecanweithiau tynnu dŵr yn rhy uchel.

Roedd maint y toiledau eu hunain yn rhy fach, ac yn aml, roedd sinciau'n rhy uchel neu'n rhy isel ac nid oedd digon ohonynt.

## Drychau

Soniodd bechgyn a merched am ddiffyg drychau yn yr arolwg.

'We need a mirror in the toilets'
*(Mae angen drych arnom yn y toiledau)*
(Bachgen, 16, Croesoswallt)

## Dŵr Yfed

Dywedodd nifer sylweddol mai un tap neu ffynnon yn ardal y tŷ bach yn unig oedd ganddynt i ddŵr yfed yn ystod y dydd.

Soniodd nifer o blant y byddent yn hoffi gweld y ffynhonnau dŵr yn cael eu symud o'r toiledau. Mewn rhai achosion, cyfeiriwyd at eu cyflwr budr difrifol. Dywedodd un plentyn

'The drinking fountain is horrible there's green stuff on it.'
*(Mae'r ffynnon ddŵr yn ofnadwy ac mae 'na stwff gwyrdd arni.)*
(Merch, 11, Cwmbrân)

## Mynediad i Doiledau a Dŵr

**C6 – Ydych chi'n gallu mynd i'r tŷ bach yn ystod gwersi?**

Dywedodd plant eraill eu bod eisiau gallu yfed o'r tapiau'n fwy aml.
Mae'r disgwyliad hwn yn debygol o fod yn seiliedig ar eu profiad. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw'n ddymunol na'n dderbyniol lleoli ffynonellau dŵr yfed mewn ardaloedd tŷ bach.

## Glanweithdra Personol

Cyfeiriwyd at ddiffyg biniau sbwriel yn y toiledau.

**C3 – A oes papur tŷ bach ar gael bob amser?**

'The toilet paper is tracing paper.'
*(Papur trasio yw'r papur tŷ bach.)*
(Bachgen, 9, Cwmbrân)

Cafwyd rhai sylwadau diddorol am bapur tŷ bach: mae rhai ysgolion yn dal i ddefnyddio 'papur trasio'. Mewn un ysgol, nododd un plentyn fod y merched yn cael papur meddal a'r bechgyn yn cael papur caled.

'There is no toilet paper'
(*Does dim papur tŷ bach*)
(Bachgen, 6, Casnewydd)

Yn aml, nid oedd unrhyw bapur yn y ciwbiclau, neu ddim digon, neu byddai rhai plant yn ei ddefnyddio i lenwi'r toiledau neu ei gnoi a'i boeri allan ar y nenfwd neu'r llawr.

## Anghenion Personol

Nododd llawer o ferched yr hoffent gyflenwyr tamponau a thyweli misglwyf yn y toiledau.

Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth hon fod ar gael ar ryw ffurf mewn ysgolion cynradd hefyd gan fod tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod merched yn dechrau cael misglwyf yn ieuengach nag yn flaenorol. Bydd hefyd angen darparu cyfleusterau i waredu cynnyrch misglwyf wedi'u defnyddio.

Mae'n rhaid trefnu cyfleusterau a darpariaeth mewn modd a fydd yn sicrhau mynediad hawdd, preifatrwydd a safonau uwch o hylendid nag sy'n bodoli ar hyn o bryd.

## Bwlio

**C8 – A ydy bwlio'n broblem yn eich toiledau ysgol?**

Gan ddibynnu ar leoliad y toiledau yn yr adeilad, roedd amgyffrediad ei bod yn ardal anniogel bosibl o'r ysgol. Mynegwyd gwir bryderon y byddent yn agored i niwed gan fwlio yno allan o olwg staff yr ysgol a disgyblion eraill.

## Crynodeb

Mae ymatebion yr arolwg yn rhoi'r darlun canlynol i ni:

- Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd (61%) yn anhapus mewn rhyw ffordd am gyflwr y toiledau yn eu hysgolion.

- Roedd rhaid i blant a phobl ifanc ddioddef diffyg preifatrwydd wrth ddefnyddio'r toiledau, gyda 45% yn dweud nod oeddent yn gallu cloi'r drysau'n iawn. Roedd hyn oherwydd cynllun a lleoliad y toiledau yn yr adeilad a chloeon annigonol ar y drysau.

- Yn achos o leiaf 20% o ymatebwyr, roedd darpariaeth annigonol o bapur tŷ bach, sebon, tywelion a chyfleusterau sychu eraill, neu fynediad annigonol iddynt, yn atal llawer rhag eu defnyddio. Mae hyn hefyd yn effeithio ar ddatblygiad arferion cadarnhaol o ran glanweithdra personol.

- Mae safon glanweithdra'n anfoddhaol yn aml, gyda dim ond 20% o ymatebwyr yn dweud bod toiledau eu hysgolion yn lan.

- Gallai'r rhwystrau rhag mynediad i doiledau'r ysgol achosi problemau iechyd i blant. Dywed 35% o ymatebwyr ei fod yn anodd cael canitad i fynd i'r toiled yn ystod gwersi.

O ystyried yr holl ffeithiau uchod, mae'n amlwg y caiff plant a phobl ifanc anawsterau mawr wrth geisio ymgymryd â gweithred gorfforol naturiol a hanfodol.

### Astudiaeth Achos – Ei ddatrys

Nododd ymatebion yr arolwg terfynol rai ysgolion sy'n rheoli'r agwedd hon ar amgylchedd yr ysgol yn effeithiol.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos un enghraifft o'r modd y gwrandawyd ar blant a'u cynnwys mewn atebion creadigol i wella cyflwr eu toiledau ysgol.

**Astudiaeth Achos 1**

**Lewis Girls Comprehensive School, Ystrad Mynach**

Mewn cyfarfod cyngor yr ysgol, bu disgyblion yr ysgol yn erfyn ar athrawon am safonau annigonol eu toiledau. Cytunodd y pennaeth i roi £1000 i Gyngor yr Ysgol tuag at eu gwella. Casglodd Cyfeillion yr Ysgol £5000 a'i gyfrannu. Cynlluniodd disgyblion a staff y gwaith arnynt a'i drefnu. Trawsffurfiwyd y toiledau steil 1950au blaenorol gan y gofalwr a gwirfoddolwyr i ystafelloedd golau, modern o liwiau gwyrdd leim, pinc llachar a lafant. Yna dewisodd y disgyblion enwau ar gyfer pob bloc, sef Groovy Chick, Hunny Bunny a Winnie the Pooh! Darparwyd drychau ym mhob ystafell yn ogystal â chyflenwyr sebon a darpariaeth lanweithiol.

Dywedodd Cath Rogerson, y Dirprwy Bennaeth, y bu ymateb gwych gan y disgyblion. Mae'r disgyblion yn eu monitro'n anffurfiol ac yn adrodd unrhyw ddigwyddiadau sy'n achos pryder i'r athrawon ar unwaith. Mae disgyblion hefyd wedi gofyn bod blociau toiled newydd yn cael triniaeth debyg ac ysgogwyd staff hefyd i newid eu cyfleusterau toiled nhw.

*"The toilets are much better now they have been refurbished. They*

used to be dull and boring and now they add colour to the school day"
"Mae'r toiledau'n llawer gwell ers eu hadnewyddu. Roeddent yn arfer bod yn ddiflas ac yn anniddorol ond maent bellach yn dod â lliw i'r diwrnod ysgol"

*Catherine Matthews Blwyddyn 10,*
*Aelod o Gyngor yr Ysgol*

## Rhan 3 – Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion

1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
Mae canfyddiadau ein harolwg a'r ymchwil a archwiliwyd gennym yn nodi achosion sy'n peri pryder difrifol am danseilio hawliau plant a phobl ifanc drwy ddiffyg cyfleusterau glanweithdra yn eu hysgolion.

2 Mae'n ymddangos nad yw oedolion yn edrych ar y mater hwn, na'i ddeall o safbwynt ac anghenion y plentyn.

3 Rydym yn canfod y gallai fod effeithiau iechyd tymor hir a thymor byr difrifol i blant sy'n defnyddio cyfleusterau tŷ bach ysgol is-safonol.

4 Rydym yn rhagweld y bydd rhai ysgolion yn gweld bod angen gwelliannau ar unwaith i gydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch.

5 Mynegodd plant a phobl ifanc gwir ofn a theimladau o ddiflastod a phryder o ran gorfod defnyddio toiledau a chyfleusterau is-safonol.

6 Cyfeiriodd plant a phobl ifanc yn yr arolwg at y ffaith fod rhai plant eraill yn gyfrifol am fandaliaeth, ysmygu a bwlio yn yr ardaloedd tŷ bach. Fel y mae'r astudiaeth achos isod yn dangos, wrth gynnwys disgyblion a chodi safonau'n ddramatig, y bydd y lleiafrif sy'n dewis 'loetran' yn y toiledau, neu weithredu'r unrhyw rai o'r uchod yno, yn newid eu hagwedd a'u hymddygiad yn gyflym iawn.

7 Amgylchedd yr ysgol **gyfan** a'r sawl sy'n byw ynddo sy'n creu'r amgylchiadau gorau ar gyfer dysgu.

8 Rhaid hyrwyddo'r cynllun yfed dŵr yn yr ysgol law yn llaw â rhoi sylw i faterion mynediad i doiledau a safonau toiledau i blant, oherwydd dylent fod yn defnyddio'r tŷ bach yn fwy aml neu'n fwy rheolaidd wrth yfed mwy o ddŵr.

9 Mae'n ymddangos nad oes unrhyw ymagwedd strategol at wella safonau toiledau ysgol sy'n cynnwys disgyblion, ysgolion a llywodraethwyr, AALl, Estyn, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, LlCC a Llywodraeth y DU.

## Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynorthwyo **pob** ysgol, a'u cyrff llywodraethol cysylltiedig, i gynnal archwiliad o gyflwr presennol toiledau ysgol o fewn y 12 mis nesaf.

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori â chyrff perthnasol (AALlau, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chyrff ymgyrchu fel *Bog Standard*) a chyda phlant a phobl ifanc, er mwyn llunio proses archwilio sy'n seiliedig ar reoliadau Iechyd a Diogelwch, ymchwil iechyd a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n rhaid i strwythur a chynnwys yr archwiliad ganolbwyntio ar blant i sicrhau ymgorffori cwestiynau a phryderon plant.

- At ddibenion yr archwiliad toiledau ysgol hwn, dylid ailarchwilio trothwy presennol y ddarpariaeth, fel a amlinellir yn arweiniad Iechyd a Diogelwch, er mwyn symud i ffwrdd o ddehongliad llythrennol i un ehangach sy'n cynnwys yr angen i ddarparu ar gyfer lles seicolegol a chorfforol y plant sy'n eu defnyddio.

- Dylai ysgolion a'u cyrff llywodraethol cysylltiedig sicrhau eu bod yn cynnwys plant a phobl ifanc (h.y. disgyblion) yn greadigol wrth gynnal yr archwiliad.

- Ar ôl yr archwiliad, bydd ysgolion a'u cyrff llywodraethol, gyda chyfraniad

gan ddisgyblion, yn datblygu cynllun gweithredu i wella cyflwr eu toiledau ysgol. Bydd angen i'r cynllun hwn nodi unrhyw oblygiadau adnoddau.

- Dylai pob ysgol gweithio gyda'r AALl i gynnal y gwaith a nodir yn y cynllun, gan ei gysylltu â'r rhaglen gwario cyfalaf tymor hwy i drawsffurfio cyflwr eu hysgol.

- Mae angen adolygu rôl Estyn a'r Fframwaith Arolygu Ysgolion yng ngoleuni'r adroddiad hwn er mwyn cadarnhau eu rôl wrth arolygu toiledau ysgol.

- Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn myfyrio ar y materion a ddysgwyd o'r Adroddiad hwn a'r broses archwilio uchod, a sicrhau bod cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwelliannau mawr i ysgolion yn rhoi proffil amlwg i doiledau ysgol a phwysigrwydd cynllun a lleoliad y cyfleusterau hyn. Bydd hyn yn cynnwys datblygu arweiniad a chyfres glir o safonau ar gyfer gwella a monitro toiledau ysgol.

## Atodiad 1 – Copi o’r holiadur

Comisiynydd Plant Cymru
Children’s Commissioner for Wales

# Ffantastig? . . . neu Ffiaidd?..

Dwedwch y gwir am y toiledau yn eich ysgol chi ... ... ... ...

Ydych chi’n ferch neu’n fachgen? Merch ☐ Bachgen ☐

Faint yw’ch oed chi? (*llenwch y blwch*) ☐

Beth yw enw’ch ysgol? ..........................................................................

O ble ydych chi’n dod? (*tref a sir os yw’n bosib*) ..........................................................

Ydych chi’n hapus gyda’r toiledau yn eich ysgol? ydw ☐ nac ydw ☐

Ydy’r drysau i gyd yn cau ac yn cloi’n iawn? ydyn ☐ rhan fwya ☐ nac ydyn ☐

Oes yna bapur tŷ bach wastad ar gael? oes ☐ rhan fwya o’r amser ☐ anaml iawn ☐ nac oes ☐

Ydych chi’n meddwl bod y toiledau’n lan? ydw ☐ ddim rhy ddrwg ☐ nac ydw ☐

Ydy’r toiledau’n arogli/gwynto’n neis? ydyn ☐ ddim rhy ddrwg ☐ nac ydyn ☐

Ydych chi’n gallu mynd i’r toiledau yn ystod amser gwersi?
ydw ☐ na, mae’r toiledau ar glo ☐ na, mae’n anodd cael caniatâd ☐

Ydych chi’n gallu golchi’ch dwylo yn nhoiledau’ch ysgol? ydw ☐ fel arfer ☐ nac ydw ☐

Ydy bwlio yn broblem yn nhoiledau eich ysgol chi? ydy ☐ nac ydy ☐

***Diolch am eich help!! - Os oes yna unrhyw beth arall hoffech chi ddweud wrthym am y toiledau yn eich ysgol, neu os oes gennych awgrymiadau i wella’r sefyllfa, ysgrifennwch yn y blwch islaw.***

☐

*Please return to/Dychwelwch i: School Toilets Campaign, Children’s Commissioner for Wales, Oystermouth House, Charter Court, Phoenix Way, Llansamlet, SWANSEA SA7 9FS Tel: 01792 765600 Fax: 01792 765601*

## Atodiad 2
## Cyfeiriadau Ymchwil

Almond, P. (1993) Constipation: a family-centred approach. Health Visitor; 66:11, 404,405.

Ballauff, A. et al (1988) Do children have an adequate fluid intake? Water balance studies carried out at home. Annuals of Nutrition and Metabolism: 32: 5-6, 332-339.

Clayden, G., Agnaarsson, U. (1991) Constipation in Childhood. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Yr Adran Addysg a Chyflogaeth (1999) Y Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgol) 1999. Llundain: Y Llyfrfa.

Yr Adran Iechyd (1998) Our Healthier Nation: A Contract for Health. Llundain: Y Llyfrfa.

Finlay, F., Jones, R. (2000) Children of the 90s. Arch Dis Child; 82: 338.

Guinan, M. E., M. McGuckin-Guinan, and A. Sevareid, 1997). Who washes hands after using the bathroom? Am J Infect Control. 25(5): tud.424-5.

Hellstrom, A.L. et al (1987) Rehabilitation of the dysfunctional bladder in children: method and 3-year follow-up. Journal of Urology; 138:4, 847-849/

Jewkes, R. K., O'Connor, B. H. (1990) Crisis in our schools: Survey of sanitation facilities in Bloomsbury health district. BMJ; 301: 1085-1087.

Morgan, R. (1988) Help for the Bedwetting Child, Llundain: Methuen.

Nelson, M. et al (1986) A case-control study of acute appendicitis and diet in children. Journal of Epidemiology and Community Health; 40: 4, 316-318.

Petter, L. P. et al (1995) Is water out of vogue? A survey of the drinking habits of 2-7 year olds. Archives of Disease in Childhood: 72:2, 137-140.

Rajaratnam, G., Patel, M., Parry, J. V., Perry, K. R., Palmer, S. R. (1992) An outbreak of Hepatitis A: school toilets as a source of transmission. Journal of Public Health Medicine; 14(1): 72-77.

Rogers, J. (1996) Cognitive bladder training in the community. Paediatric Nursing; 8:8,
18-20.

Rugg-Gunn, A. J. et all (1987) The water intake of 405 Northumbrian adolescents aged 12-14 years. British Dental journal: 162: 9, 335-340.

Taitz, L. S., Wales, J. K. H., Urwin, O. M., Molnar, D. (1986) Factors associated with outcome in management of defecation disorders. Arch Dis Child: 61: 472-477.

Thomas, M. E. M., Tillett, H. J. E. (1973) Sonnei Dysentery in day schools and nurseries: an eighteen-year study in Edmonton. Journal of Hygiene; 71: 593-602.